

ARWEINIAD I
ADNABOD,
CANFOD
A
RHEOLI
JAC Y
NEIDIWR



Pert ond poen!

JAC Y NEIDIWR

Impatiens glandulifera

CYNEFIN BRODOROL

Gorllewin a chanol mynyddoedd yr Himalaia.

CYNEFIN PRESENNOL

I'w cael yn eang drwy'r rhanbarth, yn enwedig ar lannau afonydd, yn gyffredin ar ymylon ffordd ac ar dir gwastraff.

DISGRIFIAD O'R RHYWOGAETH

Planhigyn tal deniadol a chanddo flodau pinc/gwyn a chodennau hadau sy'n ffrwydro. Fe'i cyflwynwyd yn gyntaf i'r DU gan gasglwyr planhigion ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Dim ond drwy wasgaru ei hadau y bydd y planhigyn yn ymledu, a gall pob planhigyn gynhyrchu miloedd o hadau. Mae'r hadau'n hyfyw am rhwng 3 a 5 mlynedd. Gan fod y planhigyn yn gallu cynhyrchu llawer iawn o hadau mae bellach wedi ymledu drwy'r wlad, gan arwain at golli bioamrywiaeth lle mae wedi ymsefydlu, am ei fod yn atal llystyfiant brodorol.

Gall Jac y Neidiwr achosi i lannau afonydd erydu ym misoedd y gaeaf, wedi i'r planhigyn wywo a gadael llecynnau mawr yn noeth ac yn agored i'r elfennau. Er ei fod yn hawdd ei weld yn ystod misoedd yr haf, gan nad oes coesynnau wedi gwywo yn y gaeaf mae'n anodd ei adnabod.



NODWEDDION ADNABOD

COESYNNAU

Yn edrych yn gymalog, yn wyrdd/coch a chyda dail yn dod allan o gymalau'r coesyn neu'r cygnau. Coesyn noddlyd gwag sy'n gnodiog a brau. Ym misoedd y gaeaf, gall greu matiau tebyg i 'wair' o goesynnau lliw gwellt.



DAIL

Lliw gwyrdd tywyll gydag asen gochlyd ar hyd y canol a danheddiad mân o amgylch yr ymyl.



BLODAU

Blodyn siâp utgorn, sy'n binc/gwyn a chanddo arogl melys, a gynhyrchir rhwng mis Gorffennaf a mis Hydref.



HADAU

Bydd codennau'n hongian ar y coesyntau ac yn ffrwydro pan fyddant yn aeddfed gan wasgaru hadau tywyll oddeutu 4-7mm o faint dros arwynebedd eang.

RHEOLAETH

Nod rheoli yw atal y planhigyn rhag blodeuo a chynhyrchu hadau.



RHEOLAETH FECANYDDOL

Gall torri neu dynnu fod yn ddull effeithiol o'i reoli, ond rhaid cwblhau hynny cyn i'r planhigyn ddechrau blodeuo. Rhaid parhau i wneud hynny o'r naill flwyddyn i'r llall hyd nes nad oes unrhyw dwf newydd i'w weld.

RHEOLAETH GEMEGOL

Mae Jac y Neidiwr yn ymateb yn dda, ar ôl taenu chwynladdwr arno, a gellir ei drin naill ai â chwynladdwr llwyr fel glyffosad neu gynnrych detholus fel 2, 4-D Amine. Yn yr un modd â thorri a thynnu, mae'n hanfodol cwblhau'r gwaith o'i drin â chwynladdwr cyn i'r planhigyn ffurfio hadau, a pharhau i'w drin hyd nes nad oes unrhyw dwf newydd i'w weld.

Os bwriedir defnyddio chwynladdwyr ar, neu wrth ymyl cwrs dŵr, bydd angen cael cymeradwyaeth ymlaen llaw gan Asiantaeth yr Amgylchedd.

DEDDFWRIAETH

O dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, mae'n drosedd plannu neu achosi i unrhyw blanhigyn a restrir yn atodlen naw, rhan dau'r Ddeddf, dyfu'n wyllt. Ychwanegwyd Jac y Neidiwr at y rhestr hon ym mis Ebrill 2010.

